

## Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer

26/2/18

**Presennol:** Tyly Roberts, (Is Gadeirydd), Eleri Jones, Geraint Roberts, Gwyn Roberts, W D Williams, Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Lis Puw (Clerc)

1. Estynnodd yr Is-Gadeirydd groeso cynnes i bawb a derbyniwyd ymddiheuriadau Emyr Jones a Huw Roberts.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Derbyniwyd datganiadau buddiant gan Tyly Roberts a W D Williams ym mater cyfraniadau i fudiadau (Eitem 9)
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 15/1/18.
5. Materion yn codi o gyfarfod Ionawr 2018:
  - i. Derbyniwyd neges gan berchennog Eglwys Santes Gwawr yn sôn am ei fwriad i osod sgaffaldiau fyny er mwyn gwarchod y clochdy ac yn sôn am ei fwriad i newid defnydd yr eglwys i eiddo preswyl. **Cytunwyd** i ddiolch iddo am y camau i ddiogelu'r clochdy.
  - ii. Hyfforddiant di-ffib – **Cytunwyd** i gynnal yr hyfforddiant (yn Gymraeg ac yn Saesneg) yn neuadd Llangywer am 7.00pm ar nos Iau 19/4/18. Mae croeso cynnes i unrhyw un fynychu. **Cytunwyd** y byddai'r Cyngor yn hysbysebu hwn yn Y Cyfnod yn nes at y dyddiad ac yn cysylltu'n uniongyrchol gyda chymdeithasau a sefydliadau yn ardal Gwalia a Chwm y Glyn. **Cytunwyd** hefyd i gyfrannu £50 at y Gwasanaeth Ambiwlans fel cydnabyddiaeth o waith yr Hyfforddwr.
  - iii. Derbyniwyd newyddion am ddiogelu Swyddfa Post Y Bala a **chytunwyd** i anfon at y y brodyr Aykroyd i ddiolch iddynt am eu cymwynasgarwch i ardal Penllyn trwy ddiogelu parhad y gwasanaeth.
  - iv. **Cytunwyd** i osod ystyried gwneud Penllyn yn ardal gyfeillgar i ddementia ar agenda'r cyfarfod nesaf.
6. Derbyniwyd adroddiad y Cyngorydd Sir a soniodd Alan Jones Evans fod y toriadau yn y grant i awdurdodau lleol yn golygu fod treth Cyngor Gwynedd yn codi ac y gellir disgwyl toriadau hyd yn oed yn y prif adrannau. Dywedodd ei fod wedi trafod mater halen gyda swyddogion, gan ddisgwyl y byddant yn ymateb pan fydd argyfwng gyda'r tywydd. Cafwyd trafodaeth ar ail-gylchu plastigion ar ôl i Tsieina wrthod cymryd mwy o wastraff. Soniodd hefyd am ei anfodlonrwydd fod ambell i griw yn creu llanast wrth gasglu biniau.
7. Materion ariannol: Derbyniwyd adroddiad manwl ar y sefyllfa ariannol a chytunwyd i dalu anfonebau'r mis.
8. Cadarnhawyd trefniadau cynnal y fynwent, 2018.
9. Cytunwyd i ymateb fel a ganlyn i geisiadau am gyfraniad ariannol:
  - i. Neuadd Llangywer £550

Arwyddwyd..... (Cadeirydd) .....(Clerc)

- ii. Eisteddfod Gylch yr Urdd yn Y Bala £100
- iii. Cymdeithas Rhieni Ysgol y Berwyn £50
- iv. Canolfan y Plase £25
- v. Ffederasiwn Meirionnydd Clybiau Ffermwyr Ifanc £75
- vi. Theatr Bara Caws £25

10. Derbyniwyd gwybodaeth am y Ddeddf Gwarchod Data newydd.

11. Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned - addawodd Alan Jones Evans i dynnu sylw swyddogion Gwynedd at y materion hyn:

- a. Lamp stryd ddiffygiol tu allan i'r neuadd.
- b. Llanast sydd wedi ei adael gan eraill wrth y gorlan ar gyfer defnydd trigolion Cwm y Glyn.
- c. Sbwriel bob ochr i'r ffordd yn ardal Llwyneinion.
- d. Coed yn tyfu dros y ffordd yn Hirnant a loriau trymion a chyson yn creu difrod i'r ffordd.

12. Partneriaeth Penllyn: Derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr.

13. Gohebiaeth Cyngor Gwynedd: Rhoddwyd ystyriaeth i Gynllun drafft Llesiant Gwynedd. Derbyniwyd rhaglen waith Chwefror.

14. Llywodraeth Cymru: Ystyriwyd cynigion drafft Comisiwn Ffiniau Cyngor Lleol.

Cytunwyd i wrthwynebu'r rhan o'r Cynllun sy'n hollti ardal y Cyngor Cymuned gyda ward Gwalia o dan ofal Llandderfel a ward Cwm y Glyn o dan ofal Llanuwchllyn, gan nodi'r pwyntiau

- Mynegi diolch bod y Comisiwn wedi nodi'r problemau daearyddol (mynyddoedd) ac nad ydyw'r cynllun gwreiddiol o gyplysu Llanygwr gyda Llanymawddwy yn ymddangos yn y Cynllun hwn.
- Mynegi fod Cyngor Cymuned Llanygwr yn fach iawn ac nid oes angen 2 Gynghorydd Sir i'w gwasanaethu.
- Mae'r Cynllun drafft yn hollti cymuned fechan glos ac yn rhannu'r Gymdeithas. Mae man addoli a mudiadau fel y Sioe Arddwriaethol ac Amaethyddol, yr Eisteddfod, a'r Gymdeithas Ddiwylliannol ar gyfer y ddwy ward gyda'i gilydd.
- Nid oes cysylltiadau diwylliannol yn gyffredin rhwng Gwalia a Llandderfel.
- Eisoes mae Cyngor Cymuned Llanygwr yn talu mwy adeg etholiadau lleol oherwydd bod dwy ward; byddai angen i'r Cyngor gyfrannu at gostau tair ward yn Llanuwchllyn yn ogystal â chostau etholiad wardiau yn Llandderfel. Byddai hyn yn faich gormesol ar yr ychydig drethdalwyr sydd yng Nghymuned Llanygwr.
- Pan fo niferoedd yn fychan, mae gwahaniaethau ar ffurf canrannau yn ymddangos yn fawr. Mae'r Cynllun Drafft hwn yn rhoi pwyslais ar ganrannau yn hytrach nag edrych ar wir rifau. O edrych ar rifau etholwyr, nid oes digon ohonynt i gyfiawnhau hollti'r Gymuned hapus a'r trefniadau cynrychioladol sy'n bodoli ar hyn o bryd.

Cyfarfod nesaf: 9/4/18

Amser gorffen: 9.30.

Arwyddwyd..... (Cadeirydd) .....(Clerc)